

O SIWT I LIWT

(*Hanes gwas sifil o gyfieithydd a aeth yn gyfieithydd ar ei liwt ei hun*)

Gan fod yr erthygl hunangofiannol hon yn ymdrin yn rhannol ag Uned Gyfieithu'r Swyddfa Gymreig, bu'n rhaid i mi fynd ar ofyn y Cynulliad am ganiatâd i'w chyhoeddi. Cefais sêl eu bendith i wneud hynny ar yr amod y cyhoeddwn ddatganiad ar ei diwedd mai fy marn, fy mhrofiadau a'm hatgofion i sydd ynddi, ac os digwyddai unrhyw un neu unrhyw sefydliad anghytuno ag unrhyw osodiad ynddi, fy nghyfrifoldeb i – a'm cyfrifoldeb i'n unig – fydd hynny. Fe hoffwn, serch hynny, ddweud bod croeso i unrhyw un fy nghywiro ac, os byddwn ni'n anghytuno, y byddaf yn fodlon iawn cytuno ar gynnwys nodyn neu droednodyn a fydd yn esbonio'r anghytundeb.

Felly, rhag ofn bod rhywun â diddordeb yn yr hanes, ymlaen â ni!

Profiad rhyfedd ar lawer ystyr yw symud o gludwch y sector cyhoeddus i wynebu rhyddid braf - a pheryglon - y sector preifat. Gan fod y profiad hwnnw'n un sy'n debyg o ddod i ran sawl cyfieithydd yn y dyfodol, dyma feddwl y gallai hanes un a gymerodd y cam cyffrous hwnnw fod o ddiddordeb. Yr hyn y byddaf yn ceisio'i ddisgrifio yn yr erthygl hon, felly, yw sut y symudais o fod yn gyfieithydd yn Uned Gyfieithu'r Swyddfa Gymreig i weithio fel cyfieithydd ar fy liwt fy hun.

Bangor

Yn ystod fy nghyfnod ar gwrs ymarfer dysgu yn y Brifysgol ym Mangor y tyfodd yr awydd ynof i gyfieithu. Ar y pryd yr oedd Rhodri, fy mrawd hynaf, yn gyfieithydd yng Ngholeg y Drindod yng Nghaerfyrddin ac yn ysu am gael dilyn cwrs ymarfer dysgu a mynd yn athro. I'r cyfeiriad arall yn union yr oeddwn i am fynd gan y gwyddwn i nad oedd fawr o ddefnydd athro ynof. Yn anffodus, gan fod Coleg y Drindod, mae'n debyg, yn chwilio am gyfieithydd o ferch a fyddai'n diwtor yn hostel y merched, ni lwyddodd Rhodri a fi i gyfnwid swyddi. Er i mi dybio ar y pryd fy mod i'n ddigon abl i wneud y gwaith hwnnw hefyd, nid felly y gwelai awdurdodau'r Coleg hwnnw bethau!

Yr hyn a ysgogodd fy niddordeb mewn cyfieithu oedd dilyn cwrs Ffrangeg yn fy mlwyddyn gyntaf ym Mangor. Un o'r llyfrau gosod oedd nofel - sgript ffilm, mewn gwirionedd - o'r enw *Les Jeux Sont Faits* gan Jean-Paul Sartre. Nofel go anghyffredin oedd hi gan mai holl ddiben ei golygfeydd cyntaf oedd adrodd hanes marwolaethau'r ddau brif gymeriad! Syrthiant mewn cariad ym myd y meirw a chael caniatâd i ddychwelyd i'r hen fyd 'ma i weld beth a ddaw o'u carwriaeth. Gan mai athronydd dirfodol mwyaf blaenllaw'r ugeinfed ganrif oedd Sartre, go brin y byddai dyn yn disgwyl diweddglo hapus.

Beth bynnag am hynny, roedd hi'n nofel a gynigiai gryn sialens i gyfieithydd, yn enwedig i un mor ddibrofiad â fi. Yn un peth, adroddai'r nofelydd yr hanes yn yr amser presennol, a rhaid oedd ceisio osgoi dechrau pob brawddeg â 'Mae ...'. Ond dyma fynd ati'n dalog i'w throsi i'r Gymraeg yn fy amser hamdden - ac roedd gormod o lawer o hwnnw yn ystod y cwrs ymarfer dysgu!

Ymhen hir a hwyr, llwyddais i orffen y cyfieithiad. Gan fod Dr Bruce Griffiths yn un o'r darlithwyr yn yr Adran Ffrangeg ym Mangor pan oeddwn i yno, ato ef yr anfonais air i ofyn a fyddai'n fodlon cyhoeddi'r cyfieithiad yng nghyfrif *Clasuron yr Academi*. Dyma air yn ôl yn syth i ddweud ei fod ef, drwy ryw gyd-ddigwyddiad rhyfedd, ar fin dechrau cyfieithu *Les Jeux Sont Faits*, ac y byddai fy nghyfieithiad yn arbed cryn dipyn o waith iddo. Ar ôl i Bruce

gaboli cryn dipyn ar y cyfieithiad, fe'i cyhoeddwyd yng Nghyfres yr Academi o dan y teitl *Tynged Anochel*.

Siwt

Erbyn i'r cyfieithiad weld golau dydd, roeddwn wedi cael swydd fel cyfieithydd yn Uned Gyfieithu'r Swyddfa Gymreig yng Nghaerdydd. Roedd y ffaith fy mod wedi cyfieithu llyfr yn help o ryw fath. Fel yr esboniodd Moc Rogers, pennaeth yr Uned Gyfieithu, wrthyf yn ddiweddarach, yr oedd cyfieithu testun mor hir yn dangos fy mod wedi dod wyneb yn wyneb â phroblemau cyfieithu ond yn dweud fawr o ddim am fy ngallu i'w goresgyn!

Aelod o'r panel a'm penododd i'r swydd oedd yr Athro T J Morgan, a dyna, hyd y gwn i, oedd yr unig dro i mi gyfarfod ag ef. Gan iddo gydweithio â'm tad a chan fod Rhodri fy mrawd yn gyn-fyfyriwr iddo, teimlwn fod gennyf o leiaf un cyfaill yn y cyfweliad.

Er nad oedd gen i'r awydd lleiaf i ddod i weithio yng Nghaerdydd, i'r brifddinas y des i ac yma'r wyf o hyd. Yn adeilad urddasol y Swyddfa Gymreig ym Mharc Cathays y cynhaliwyd y cyfweliad ac roeddwn i'n rhyw dybio mai yno y gweithiwn. Ond na, roedd y Swyddfa Gymreig ar y pryd ar wasgar mewn adeiladau go frith ar hyd a lled Caerdydd. Yn 42-43 Park Place y cychwynnais fy ngyrfa fel cyfieithydd, a hynny mewn ystafell gefn na ddisgleiriodd yr haul erioed ryw lawer drwy ei ffenestri.

Moc a Mary

Yr oedd yno ddau gyfieithydd yn barod, sef Moc Rogers a Mary Jones. Brodor o Ffair Rhos yn nhop Sir Aberteifi oedd Moc, cymeriad difyr a fu'n athro cyn cael ei benodi'n gyfieithydd amser-llawn cyntaf y Swyddfa Gymreig. O Aber-porth yng ngwaelod Sir Aberteifi y deuai Mary, a bu gwrando ar iaith gyhyrog a chyfoethog sgwrs Moc a Mary'n addysg braf. Roedd eu hiaith yn frith o ymadroddion cefn gwlad - gwrando fel mochyn yn tatws, oer fel abo, mae'r gwr llwyd ar 'y nghefen i, ac ati - a hynodrwydd tafodiaith Moc oedd gadael rhagenw a oedd yn wrthrych berf gryno tan ddiwedd y cymal, sef y patrwm safonol yn yr iaith Wyddeleg! Brithai Mary ei sgwrs â geiriau pert gwaelod y sir â'i 'wes, wes' a'i 'dwe'. Dysgais yn gyflym beth oedd ystyr ymadroddion fel 'codi natur' a 'ma' 'i hanner e yn Pen-boyr'.

Yn yr ystafell nesaf atom roedd ein dwy deipyddes, Val ac Anne. Val o Gwmllynfell â'i dywediadau â thipyn bach yn fwy o flas y pridd arnynt! Pan ddywedodd hi gynta fod rhywun yn 'lathsen geit', doedd gen i ddim syniad am beth roedd hi'n sôn. O dipyn i beth fe ddes i'n gyfarwydd â gwrando arni'n dweud 'do's dim sens mewn byta potsh â rhaw' a phethau tebyg. Fe wrandawn i'n glustiau i gyd ar y parablu byw yma a lifai fel arian drwy eu sgwrs ac yn ddistaw bach - bron fel mochyn yn tatws - fe'u cofnodwn.

Yr Uned Gyfieithu

Roedd Moc yn yr Uned ers iddi gael ei sefydlu ym 1968 a Mary wedi dod ato ryw dair blynedd yn ddiweddarach. Cawsai'r Uned ei gosod yn Adran Hysbysrwydd y Swyddfa Gymreig am mai yno y bu'r cyfieithydd answyddogol cyntaf yn un o Swyddogion y Wasg. Er bod gan y Swyddfa Gymreig Adran Gyffredinol a oedd yn gartref i bob math o elfennau afreolus nad oedden nhw'n cyd-fynd yn daclus â phatrwm y Gwasanaeth Sifil, nid yno'r oedd ein lle!

Yn y dyddiau hynny, sef tua diwedd 1973, yr oedd unedau cyfieithu'n bethau prin iawn yng Nghymru, a gellid cyfrif nifer y cyfieithwyr proffesiynol ar un llaw. Ac os Deddf yr Iaith Gymraeg 1967 fu'n gyfrifol am sefydlu'r Uned Gyfieithu yn y Swyddfa Gymreig, fe

ysgogodd Deddf Ad-drefnu Llywodraeth Leol 1972 greu amryw o unedau cyfieithu ac agor y drws i gyfieithu fel diwydiant yng Nghymru.

Rwy'n cofio darllen, rai misoedd ar ôl i mi gychwyn yn y Swyddfa Gymreig, hysbyseb am swydd pennaeth uned gyfieithu Cyngor Sir Gwynedd. Penderfynais nad oeddwn i wedi magu digon o brofiad eto i wneud cais amdani. Tybed beth fyddai wedi digwydd petawn i wedi gwneud hynny!

Un rheswm dros beidio ag ymgeisio oedd fy mod wedi dechrau mwynhau'r gwaith o ddifrif. Roedd yno ddigonedd o waith a digon o amrywiaeth. Llythyrau, hysbysiadau ac adroddiadau rif y gwllith. Roedd yno hefyd gwmni da gan fod Moc, yn arbennig, yn barablwr difyr a fyddai wrth ei fodd yn smocio'i bibell ac yn adrodd hanes hwn a'r llall yn ei ffordd hamddenol braf. Y demtasiwn, wrth gwrs, oedd gwranddo arno'n parhau drwy'r dydd ac anghofio am y gwaith a oedd yn pentyrru yn y badell waith.

Un o nodweddion eraill y lle oedd ffordd ddigymar Moc o fedyddio taclau'r swyddfa ag enwau cyfarwydd. Y 'badell' oedd yr 'in tray', 'calch' oedd Tippex, a 'dwr' oedd y 'thinner', sef yr hylif clir a ddefnyddid bryd hynny i lastwreiddio'r Tippex pan â'n rhy drwchus. Mae'n debyg bod oes y 'thinner' wedi darford ymhen blynnyddoedd am fod arogl'r hylif yn cael rhyw effaith tebyg i arogl glud. Rhaid cyfaddef na theimlais i erioed yr un cyffro wrth deneuo'r calch â 'dwr' tipyn cryfach na dwr cyffredin.

Cawn glywed hanesion rhyfedd gan Moc am ei ddyddiau cynnar yn yr Uned Gyfieithu ac am ambell deipyddes yn y dyddiau cynnar na allai deipio ond yn y gêr isaf un. Byddai Moc yn sôn yn fynych am y gwr a oedd wedi dweud wrtho 'I don't know much Welsh, but I know enough to be dangerous!'. Cawn fy rhybuddio ganddo hefyd am y rhai a fyddai'n debyg o feirniadu'n gwaith - mai'r rhai mwyaf anwybodus a fyddai debycaf o ladd ar ein cyfieithiadau. Roedd y rhai gwybodus yn gweld – ac yn deall – problemau'r cyfieithydd.

Os haerai Moc fod defnydd nofel, os nad nofelau, yn adrannau'r Swyddfa Gymreig, tybed a oedd yn sylweddoli y gallai ef yn hawdd fod yn un o'r prif gymeriadau? Yn angladd Moc, fe honnodd yr Athro Hywel Teifi Edwards ei fod yn teimlo'n sicrach ynghylch natur wâr y Swyddfa Gymreig am fod Moc yno. Gallaf glywed Moc yn piffian chwerthin!

Os oedd y gwaith a'r cwmni'n ddifyr iawn, un diffyg mawr oedd nad oedd yno unrhyw hyfforddiant trefnus. Ar ôl bwrw golwg dros fy ngwaith am rai wythnosau, penderfynodd Moc fod safon fy nghyfieithu'n ddigon da i mi gael mentro anfon fy nghyfieithiadau allan i'r adrannau heb i neb eu golygu. Roedd hynny'n dipyn o gyfrifoldeb ar gyw-cyfieithydd, a byddwn i byth a beunydd yn gofyn i Moc a Mary 'Shwd ych chi'n cyfieithu hwn a'r llall?', cymaint felly nes bod yn boen i'r ddau ohonynt am rai blynnyddoedd. Yn anorod, byddai hynny'n hybu diogi o'm rhan i, a chofiaf i Mary, pan ofynnais iddi sut oedd cyfieithu'r gair Saesneg 'adze', holi'n ddeifiol a oeddwn i wedi chwilio yn y *Geiriadur Mawr* - ac yno'r oedd ef, wrth gwrs! Gobeithio i mi ddysgu'r wers honno, beth bynnag.

Roedd safon y cyfieithu'n anhygoel o uchel – yn ein barn ni, wrth gwrs! Rwy'n cofio Mary un tro yn darllen dros ryw gyfieithiad na wyddai hi o ble'r oedd ef wedi dod, a dweud 'Mae'n berffaith - mae'n rhaid mai ni 'nath e!'.
Y Pwyllgor Cyfieithu Ymgynghorol

Yn gefn i ni fel uned yr oedd pwyllgor - y Pwyllgor Cyfieithu Ymgynghorol - ac arno rai o wroniaid y genedl, fel yr Athro T J Morgan, yr Athro Glanmor Williams, R T D Williams, Mati Rees ac eraill, a gyfunai wybodaeth fanwl o deithi'r Gymraeg â gwybodaeth arbenigol o'u priod feysydd ym myd addysg, llywodraeth leol ac ati. Hyd yn oed pan anghytunent, yr

oedd y trafod rhwng pobl mor hyddysg yn fwy goleuedig na barn y rhai a dybient eu bod yn gwybod. Os ydw i'n cofio'n iawn, gyda llaw, y Pwyllgor hwn fathodd y gair 'traffordd'.

Un o'r pethau rwy'n eu difaru yw na chefais gyfle erioed i fynd i un o gyfarfodydd y Pwyllgor hwnnw. Cyw bach ola'r nyth oeddwn i a chawn warchod yr Uned tra byddai Moc a Mary'n cael y fraint o wrando ar ddoethineb aelodau'r Pwyllgor. Ymhen blynnyddoedd, aeth nifer y 'problemau' roedd gofyn iddynt eu hystyried yn llai a llai nes bod rhaid crafu am rywbeth iddynt ei drafod. Pan ddaeth Nicholas Edwards yn Ysgrifennydd Gwladol â chael chwilen yn ei ben ynghylch dileu cwangos (ysfa sy'n eironig iawn o edrych yn ôl), cafodd wared ar y Pwyllgor Cyfieithu Ymgynghorol. Trueni.

Ond yn ôl at waith yr Uned. Fe ddysgais lawer. Rwy'n credu i mi gyfrannu rhywfaint bach, yn bennaf am fy mod i ambell waith yn clywed llais Miss Enid Pierce Roberts o'm dyddiau coleg yn esbonio rhyw reol ramadegol neu'i gilydd i ni, a minnau heb gymryd rhyw lawer o sylw ohoni ar y pryd. Roedd ganddi 'Enid P.' ryw ryfedd ddawn i blannu gwybodaethau cyfrin yng nghilfachau'r cof.

Un o'r pregethau cyntaf a gefais gan Mary oedd bod angen gwahaniaethu rhwng 'cael' a 'derbyn', mai ystyr 'derbyn' oedd 'to accept' a bod angen osgoi creu amwysedd drwy ddrysu rhwng y 'derbyn' a olygai 'to accept' a'r 'derbyn' a olygai 'to receive'. 'Cael anaf y byddwn ni, nid *derbyn* anaf, fel maen nhw'n ei ddweud ar newyddion y BBC' oedd penllanw'r bregeth honno. Ac o ystyried y mater, dilyn y Saesneg sydd yma: Saeson crand (wel, gweision sifil, beth bynnag) yn ymwrthod â ffurfiau Eingl-Sacsonaidd a blas y pridd arnynt - y ferf 'get' yn yr achos hwn - a ffafrio 'receive', gair dwad o'r Ffrangeg, a hwnnw yn ei dro'n amharu ar Gymraeg naturiol. Cael addysg, cael triniaeth, cael damwain amdani bob tro, felly. Petaech chi'n eu 'derbyn', byddech yn diolch amdanynt!

Pregeth arall oedd honno ynghylch 'to appreciate'. Yn yr ymadrodd 'as you will appreciate', 'fel y byddwch yn *sylweddoli*' oedd y cyfieithiad naturiol, nid 'fel y byddwch yn gwerthfawrogi'.

Ac o sôn gynnau am fewnforio geiriau Ffrangeg, un o'r pethau a'm trawodd i gyntaf oedd bod y Gwasanaeth Sifil yn mynnu defnyddio geiriau benthyg yn gwbl ddiangen. Fe ddywedent bethau fel 'Please advise me ...' pan olygent 'Please tell/inform me' neu hyd yn oed 'Please let me know', ond yr oedd rhyw grandrwydd cyfrin yn codi o ddefnyddio fersiwn Saesneg o'r ferf Ffrangeg 'aviser' i roi gwedd anghyffredin i air digon cyffredin. Dyna wendid pob biwrocratiaith, a phob proffesiwn, am wn i. O dro i dro, deugn ar draws ambell ymadrodd cwbl newydd. 'Penny numbers' oedd un ohonynt, a bu'n rhaid ffonio awdur y llith i ofyn a oedd ef yn golygu 'nifer fach'? Oedd, meddai'n swta reit.

'Discretion'

Peth difyr arall am y gwaith oedd bod gennym ryddid - 'discretion' oedd y gair a arferid - i gynnig help i bobl a oedd am gael rhywfaint o wybodaeth am y Gymraeg neu rywbeth i'w wneud â'r Gymraeg. Erbyn heddiw, Llinell Gyswilt Bwrdd yr Iaith Gymraeg sy'n ateb ymholiadau o'r fath, ond bryd hynny doedd Bwrdd yr Iaith ddim yn bod, a'r teimlad oedd y dylem gynnig cyngor os na allai pobl gael gafael ar wybodaeth yn unman arall. Doedd pob ymateb ddim yn hyn y byddai dyn yn ei ddisgwyl. Pan esboniodd Mary wrth ryw wraig un tro fod dechrau geiriau yn Gymraeg yn newid o dan rai amgylchiadau, ymateb y wraig honno oedd 'How quaint!'.

Weithiau, caem geisiadau am enw Cymraeg ar dy, ac er mai fy nghas enw ar dy yw Crud yr Awel, dyna'r enw a apeliai bron yn ddi-ffael at y rhai a ffoniai, a byddwn i'n arswydo wrth feddwl sawl un a fyddai'n ei ynganu'n '*Crudd-er-Awil*'. Ambell waith byddai angen gwneud

mwy na chynnig rhes o enwau. Un tro, daeth cais i gyfieithu 'And we shall remember the long nights of pride'. Beth bynnag oedd yr ystyr neu'r cyd-destun, fe'i cyfieithwyd fel 'A chofiwn hyd y bedd hirnosau balchder gynt', ond wn i ddim hyd heddiw ymhle y mae'r cyfieithiad i'w weld, os yw ef i'w weld yn unman!

Cais rhyfedd arall oedd hwnnw i gyfieithu hysbysiad geni tairieithog - Cymraeg, Saesneg a Lladin. Fe esboniodd y wraig a wnaeth y cais eu bod yn deulu a oedd wedi dwlu ar y Rhufeiniaid ac yn gwisgo *togas* ac ati o dro i dro. Gan ei bod hi o dras Gymreig, roedd hi am gyhoeddi genedigaeth y babi diweddaraf, Anastasia Nicole, yn y tair iaith. Fe gafodd hi'r cyfieithiad ac ymhen ychydig cefais gopi o'r 'hysbysiad' tairieithog ac arno lun o'r teulu yn eu *togas* gwyn!

Gwers bwysig

O dipyn i beth, fe dyfodd yr Uned Gyfieithu wrth i'r gwaith gynyddu, a byddai pob aelod newydd yn ei dro'n dysgu ffordd yr Uned o gyfieithu. Weithiau, byddai canlyniad annisgwyl i'r 'hyfforddiant' hwnnw. Rwy'n cofio cyfarfod ymhen blynnyddoedd â merch a fu'n gweithio gyda ni am ryw flwyddyn. 'Y peth pwysica ddysgest ti i mi', meddai, 'oedd, os bydde problem yn codi, gad e ma's!' Mae'n dda meddwl bod o leiaf un cyfieithydd wedi gwrandao ar gyngor doeth ...

Ni roddwyd unrhyw drefn ar yr hyfforddi, a rhyw hyfforddiant wrth wneud y gwaith a gâi pob un ohonom. Efallai mai dyna'r hyfforddiant gorau, ond hwyrach y byddai wedi bod yn well - ac wedi osgoi tipyn o ailadrodd - petai rhywun yn rhywle wedi ceisio rhoi rhyw lun o batrwm ar gynghorion Moc a Mary. Pan es ati, flynyddoedd yn ddiweddarach, i lunio canllawiau i gyfieithwyr allanol, fe gofnodais ryw ddau gant a hanner o bwyntiau bron heb orfod meddwl.

Ymadroddion hunllefus

Hongiai dau ymadrodd rhwysgfawr fel barn uwch ein pennau. Dyfyniad o araith gan Elystan Morgan yn y Senedd oedd y cyntaf. Pan ofynnwyd i'r Senedd gymeradwyo rhyw ffurflenni neu'i gilydd yn hwyr un nos, ei feirniadaeth ddeifiol ac ysgytwol ohonynt oedd bod y fersiwn Cymraeg yn '*arthritic and grotesque*'! Gwych o sylw, ond pan ymchwiliwyd i'r cyhuddiad, cafwyd bod y cyfieithiad yn hen ac mai'r Athro Henry Lewis oedd yn gyfrifol amdano. Rhaid cyfaddef nad oedd yn darllen yn rhyw lithrig iawn.

Yr ymadrodd arall oedd '*Whitehall Welsh*', ffordd ddeifiol o wneud hwyl am ben natur ddifywyd, dienaidd a dieneiniad cymaint o'r stwff a gyfieithem. Gan mai stwff oeraidd a diduedd y mae'r Gwasanaeth Sifil yn ymhyfrydu ynddo, rhaid oedd canu'n iach i fwrllwm naturiol y Gymraeg a'i gwerin gyffredin ffraeth. Ymadroddi pwylllog amdani, a gwae ni os ceisiom wneud dim heblaw atgynhyrchu'r oerni hwnnw yn y Gymraeg. (Cewch bregeth am natur 'Cymraeg swyddogol' yn fy mhennod ar 'Official Welsh' yn *The Use of Welsh*, gol. Martin J Ball, cyfrol sydd, gyda llaw, yn cynnwys pennod ddifyr dros ben ar *Literary Welsh* gan Mr Dafydd Glyn Jones.)

Rwy'n cofio i mi, un tro, gyfieithu llythyr amlgymalog a oedd yn wyth llinell o hyd, ond ar ôl darllen dros y cyfieithiad fe ddes i'r casgliad bod modd dweud y cyfan yn gliriach o lawer mewn cyfieithiad tipyn mwy cwta. Wel, os do fe 'te! Daeth awdur crac y llythyr ar y ffôn i ofyn pa hawl oedd gen i i gwtogi ei lythyr wyth-llinell i bum llinell!! Bu'n rhaid tyngu llw, bron, fy mod i wedi cyfleu neges y llythyr i'r blewyn.

Ambell waith, byddai dyn yn ystyried ymadrodd fel 'the Government is actively engaged in the pursuance of this policy' ac yn ceisio torri drwy'r gor-eiriogrwydd drwy ddweud 'mae'r

Llywodraeth wrthi'n dilyn y polisi hwn' (a diolch i Robin Williams am dynnu sylw yn nheith un o'i lyfrau at ddefnydd aml y Cymry Cymraeg o'r gair bach 'wrthi'). Ond ganol nos, byddai meddwl dyn yn gogordroi uwchben y broblem ac yn gofyn ai'r bwriad mynegi'r peth mewn ffordd mor glogyrnaidd oedd *cuddio'r* ffaith nad oedd y Llywodraeth yn rhyw hoff iawn o'r polisi hwnnw?

Ac o ystyried materion astrus o'r fath, beth oedd y pethau anoddaf i'w cyfieithu? Byddwn i'n cynnig dau gategori, sef bwydlenni a sloganau. Gan na wn i fawr o ddim am goginio nac, yn sicr, am uwch-eirfa Saesneg/Ffrangeg byd bwyd a bwytai, byddaf bob amser yn petruso rhag mentro i fyd bwydlenni, a rhaid gofyn i rywun arall fwrw golwg dros y cyfieithiad rhag ofn bod ynddo rywbeth hollol ddwl. Rwy'n cofio un tro i mi orfod ffonio'r cwsmer a holi beth oedd 'duchesse potatoes' ac i'r cwsmer ffonio'r cogydd i'w holi yntau. Pan ddaeth yr ateb, y cyfieithiad gorau y gallwn ei gynnig ar y pryd oedd 'tatws stwnsh'. Rhywsut, doedd geirfa bwyd y Gymraeg ddim yn cyrraedd arucheled (ffug) y gwreiddiol!

O ran sloganau, fe allan nhw fod yn hunllef a rhaid eich arfogi'ch hun â phob math o bethau i fynd i'r afael â nhw – casgliadau o ddjarhebbion, cyfrolau o farddoniaeth a llu o bethau eraill i'ch ysbrydoli. Weithiau, wrth gwrs, rhaid bodloni ar ryw ymadrodd digon di-fflach. Ac er mai cyngor Moc i ni, wrth daclo sloganau, oedd 'anwybyddwch y chwarae ar eiriau, ewch am yr ystyr', ef oedd yr un a allai greu ymadrodd athrylithgar o fachog. Cawsom gais un tro i gyfieithu'r slogan dieneiniad 'Make someone happy with a phonecall'. Bu dau ohonom wrthi'n crafu'n pennau, a dim un flach o weledigaeth yn unman. Yna, dyma Moc yn codi ei ben a gofyn 'Beth am "Codwch y ffôn i godi calon"?' Roedd y ddau ohonom yn syfrdan. Yr union beth – ymadrodd twt a oedd yn chwarae ar eiriau ac, yn well na dim, yn rhagori o gryn dipyn ar y Saesneg. Beth amser yn ddiweddarach, fe gyfeiriodd yr Athro Jac L Williams at y slogan hwnnw mewn erthygl yn *Barn* fel enghraifft o ymadrodd trawiadol a chwbl Gymreig.

Ychydig yn ddiweddarach, daeth cais i ni greu rhyw hanner dwsin o sloganau i'w rhoi ar ochrau faniau bach melyn BT. Fe edrychom ni ar y sloganau Saesneg a phenderfynu'n weddol gyflym na fyddem fawr elwach o'u cyfieithu. Aethom ati gyda'n gilydd i greu sloganau, pwysu a mesur y cynigion, a dewis yr hanner dwsin gorau ('cael dau ben llinell ynghyd' yw'r unig un o'm cynigion i y gallaf ei gofio). Anfonwyd yr hanner dwsin yn dalog at fois Swyddfa'r Post (gan mai nhw oedd yn gyfrifol am BT bryd hynny). Yr ymateb a gawson ni oedd 'Could you please translate these Welsh slogans into English?!' Bu'n rhaid esbonio nad oedd modd rhoi cyfieithiad ystyrion o 'cael dau ben llinell ynghyd' nac o 'mi glywaf dyner lais'. Bu peth beirniadu ar y slogan olaf, gyda llaw, am iddo dramgwyddo ambell un mwy crefyddol na'i gilydd. Y jôc - i ni - oedd mai un o ferched y mans a'i hawgrymodd!

Rai blynyddoedd yn ddiweddarach, cyflwynais raglen o fideos am drenau stêm lein y Trallwng a Llanfair Caereinion, lein Cwm Rheidol a rheilffyrdd Twrci i Gymdeithas Reilffyrdd y Swyddfa Gymraeg o dan y teitl 'Welshpool, Wales and the World'. Yna, rai blynyddoedd ar ôl i mi adael y Swyddfa Gymreig, cefais gais gan Wasg y Brifysgol i gynnig teitl i gyfrol o atgofion gan Nicholas Edwards am ei fywyd fel gwleidydd. Ynddi, soniai'n bennaf am y Senedd, ei gyfnod fel Ysgrifennydd Gwladol Cymru ac am broblem dwr yng Nghymru. Cofiais am 'Welshpool, Wales and the World' a chynnig 'Water, Wales and Westminster'. Er nad dyna'r union deitl sydd ar y gyfrol, cefais y newyddion da maes o law mai hwnnw oedd y cynnig gorau. Y newyddion drwg oedd mai'r wobwr oedd cael copi o'r llyfr!

Arbenigo

Wrth i'r Uned Gyfieithu dyfu, yr oedd hi'n anochel bod rhywfaint o arbenigo. Aeth Mary i weithio mwy a mwy ar ffurflenni Treth ar Werth (er mai fel Treth Gwerth y cyfeiriem ati bryd hynny) a ffurflenni treth incwm. Flynyddoedd yn ddiweddarach, fe soniodd Rod Richards yn

ei ffordd ddilornus arferol am ryw 'sledge' yn cyfieithu ffurflenni treth incwm. Rhaid gofyn erbyn hyn pwy yn union oedd y *sledge*!

Fe es i, o dipyn i beth, i arbenigo ar ffiniau ac ar addysg. Tua'r adeg honno yr aeth Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru ati i geisio ad-drefnu rhai o ffiniau mwyaf dadleuol yr hen blwyfi. Yr oedd y Llywodraeth wedi penderfynu y byddai cymunedau'n disodli'r hen blwyfi a bod angen cyfuno plwyfi a oedd bellach yn ddiystyr neu'n rhy fach neu, mewn un achos o leiaf, heb neb yn byw ynddo. Gan mai'r bwriad oedd cyfieithu adroddiadau pur faith y Comisiwn ar gryn frys, penderfynwyd cyflogi tri chyfieithydd ar gontractau byr (rhai tri mis i gychwyn) i'm helpu i wneud y gwaith. Wedi i ni lwyddo i ddod o hyd i dair merch gymwys, aeth y tair ohonynt a minnau weithio yn swyddfeydd y Comisiwn, lle o'r enw Queen's Court, y lle â'r liffit arafaf o holl liffitiau'r byd. Er gwaetha'r sôn am gontractau byr a gweithio'n gyflym, bu'r tair merch gyda ni am y rhan orau o dair blynedd!

Hanner ffordd drwy'r cyfnod hwnnw, fe ailymunais â'r brif Uned a bwrw ati i weithio'n bennaf ar adroddiadau Arolygwyr Ysgolion Ei Mawrhydi, dogfennau swmpus a fyddai bryd hynny'n manylu cryn dipyn ar waith pob ysgol y gwnaed arolwg ohoni. Ar ôl ymgyfarwyddo ag ieithwedd yr adroddiadau, dechreuais fwynhau gweithio ar ddogfennau hirfaith o'r fath, a chan fod yr eirfa'n dod yn weddol rwydd, roedd modd cynhyrchu'r cyfieithiadau'n hwylus. Ond roedd un broblem yn fy mhoeni, ac o gyfeiriad arall y daeth yr ateb iddi.

Cyfieithu ar y pryd

Er bod hi'n dal yn ddyddiau eithaf cynnar ar gyfieithu fel diwydiant yng Nghymru, roeddwn i wedi clywed tipyn o sôn am gyfieithu ar y pryd, ac yn enwedig am y gwaith a wneid yng Nghyngor Sir Gwynedd a rhai o gynghorau a sefydliadau eraill y Gogledd. Felly, pan ofynnodd Adran Llenyddiaeth Cyngor y Celfyddydau i mi wneud tipyn o waith cyfieithu ar y pryd i'r Pwyllgor Llenyddiaeth, fe gytunais i roi cynnig arni ar yr amod bod y rhai di-Gymraeg ar y Pwyllgor yn derbyn fy mod i'n ddibrofiad ac y cawn roi'r gorau iddi os nad oedd fawr o siâp arna i.

Ar ôl cyfieithu mewn rhai cyfarfodydd, fy mhrofiad i, fel llawer un arall, oedd mai'r offer oedd y broblem fwyaf. Treuliais fwy nag un cyfarfod â'm clust rownd ochr y bocs yn ceisio clywed geiriau'r siaradwyr a cheisio sibrdw fy nghyfieithiad at y meic ynghanol y bocs! Ac er i ryw wraig â galluoedd arbennig ddweud wrthyf mewn parti priodas rai blynyddoedd ynghynt y gallwn gyfieithu ar y pryd a gwneud pos croeseiriau'r *Times* yr un pryd, mae arna i ofn ei bod hi'n cyfeiliorni. Doedd gen i ddim clem sut oedd gwneud pos croeseiriau'r *Times*!

Gan mai pwyllgor o bobl barabllus a oedd yn adnabod ei gilydd yn bur dda oedd y Pwyllgor Llenyddiaeth, byddai cryn dipyn o sgwrsio anffurfiol a llawer o siarad ar draws ei gilydd. Gwir y dywedai'r diweddar Hedley Gibbard, pan oedd yn brif chyfieithydd Gwynedd, mai cyfarfodydd 'lleol' yw'r rhai anoddaf i gyfieithu ar y pryd ynddynt. Rhaid gwrando'n astud ar ddau neu dri llais, penderfynu p'un ohonynt sy'n mynd i ennill y 'ras' a cheisio dal ystyr geiriau'r sawl sy'n siarad. Os dewiswch chi'r un anghywir, gallwch lithro i'r gors yn hawdd iawn.

'Arian maen nhw'n mynd i'w drafod y prynhawn 'ma. Fydd 'na ddim llawer o waith cyfieithu i chi' oedd y cyngor ges i un tro, a gwir y gair. Ond cafwyd ambell eithriad. Y mathemategydd annwyl Jâms Nicholas oedd yn siarad mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Llenyddiaeth, ac meddai yn ei ffordd hamddenol arferol, 'Mae pris y llyfr hwn yn rhesymol iawn,' meddai. 'This book is very reasonably priced,' meddwn i'n syth. 'Dwy bunt ...', meddai Jâms. 'Two pounds' sibrydais fel fflach i'r meic cyn clywed Jâms yn dweud '... ar bymtheg ...'. 'Sorry', meddwn i fel mellten, 'seventeen pounds'. '... ar hugain', meddai Jâms wedyn. 'Sorry,' meddwn innau eto, 'thirty-seven pounds'. Mae'r fath beth yn bod â chyfieithu'n rhy gyflym!

Gan fod gen i gof eitha gwael, yr hyn a'm poenai weithiau wrth orffen cyfieithu brawddeg oedd nad oedd gen i ddim clem sut yr oedd hi wedi dechrau! Wnaeth neb gwyno, serch hynny, a'r syndod mwyaf i mi oedd nad oedd neb wedi mynd i gysgu wrth wrando ar y llais undonog o'r bwth yn llefaru'n ddi-baid.

Melltith arall cof gwael yw methu cofio ambell fflach o weledigaeth. Yn ystod un o gyfarfodydd y Pwyllgor Llenyddiaeth, fe ddefnyddiodd un o'r aelodau ymadrodd eitha astrus ac o rywle, heb i mi feddwl bron o gwbl, fe ddaeth yr union gyfieithiad i'm meddwl fel manna o'r nefoedd. Ar ddiwedd y cyfarfod, daeth un o aelodau'r Pwyllgor ataf a dweud ei fod yn cofio i un o'i gyd-aelodau ddefnyddio ymadrodd y byddai'n anodd ei gyfieithu'n gywir. Yn anffodus, ni allwn i - mwy nag yntau - gofio'r ymadrodd Cymraeg trafferthus hwnnw, ac ni allwn gofio'r cyfieithiad ohono chwaith!

Cyfieithu ar y pryd - ar dâp!

Er mai'n achlysurol y cyfieithwn ar y pryd, yr hyn a'm trawai bob tro'r awn i'n ôl at fy ngwaith beiro-a-phapur oedd mor araf a llafurus y byddwn i'n cyfieithu. Dywedai Moc o dro i dro mai'r unig wahaniaeth rhyngom ni a'r Esgob William Morgan wrth gyfieithu oedd ei fod yntau'n defnyddio cwilsyn a'n bod ni'n defnyddio beiros! Gwir bod Mary'n defnyddio recordydd tâp o bryd i'w gilydd i arddweud ei chyfieithiadau a bod ein teipyddesau glew'n cynhyrchu drafft i'w gywiro ac yna'n aildeipio'r cyfan yn gopi gorffenedig. Ond tua'r adeg honno dechreuodd byd technoleg frasgamu yn ei flaen a chynhyrchu offer arddweud llawer mwy hylaw. Gan 'mod i wedi sylweddoli 'mod i'n gallu cyfieithu'n llawer cynt ar lafar, dyma roi cynnig ar ddefnyddio offer arddweud a chael bod y broses yn un hwylus dros ben. Y broblem yn y dyddiau cyn-gyfrifiadurol hynny, wrth gwrs, oedd yr ail-deipio, ond gan i un o'n teipyddesau ddweud ei bod hi'n fodlon ail-deipio fy nghyfieithiadau, dyma fwrw ati i ddefnyddio'r dictaffon yn gyson i gyfieithu adroddiadau hirfaith yr arolygwyr ysgolion.

Erbyn hynny, yr oedd y Swyddfa Gymreig, fel rhyw iâr fawr, wedi casglu'r rhan fwyaf o'i hadrannau o dan ei hadenydd yn yr adeilad newydd - y 'palas marmor' - ym Mharc Cathays. Gan mai patrwm cynllun-agored oedd i'n swyddfa, doedd arddweud yn gyhoeddus o flaen fy nghydweithwyr ddim yn apelio ata i nac atyn nhw. Llwyddais i ddod o hyd i ystafell fach fach uwchlaw prif risiau cyntedd yr adeilad newydd a dechrau gweithio yn honno. Oni bai fod modd agor slatiau gwydr y ddwy ffenestr yno, byddwn i wedi mygu! Ymhen tipyn, cefais ganiatâd i ddefnyddio ystafelloedd y gwahanol arolygwyr gan grwydro o'r naill i'r llall yn ôl pwy fyddai'n digwydd bod allan ar y pryd. Wedi'r cyfan, iddyn nhw yr oeddwn i'n gwneud y rhan fwyaf o'm gwaith. Mantais hynny oedd fy mod i wedi dod i adnabod sawl un ohonynt yn well nag y byddwn fel arall; yr anfantais oedd bod ambell un yn ceisio dwyn pwysau arnaf i roi blaenoriaeth i'w adroddiad ef!

Daeth gwaith ataf hefyd o weddill yr Adran Addysg, a dyma fwrw ati i gyfieithu dogfennau'r Cwricwlwm Cenedlaethol. Rwy'n cofio cyfieithu un llyfryn technegol ar bwysadau gwahanol elfennau'r Cwricwlwm Cenedlaethol ac ochneidio wrth feddwl na fyddai neb call byth yn darllen y Saesneg, heb sôn am y cyfieithiad. Mewn cyfarfod o bwyllgor beth amser wedyn, pan oeddwn i'n cyfieithu ar y pryd, dyma synnu a rhyfeddu wrth glywed dau aelod yn dyfynnu'n helaeth o'r llyfryn astrus hwnnw. Y wers oedd na ddylem ni byth â meddwl na fydd neb yn darllen eich cyfieithiadau. Fe synnech chi!

Crwydro'r cledrau

Digwyddiad pwysig (i mi!) yn ystod yr un cyfnod oedd cael cais gan y Martin Ball a olygodd *The Use of Welsh* i gydolygu llyfr ar reilffyrdd bach Cymru. Gan fod y llyfr yn cynnwys

cyfres o benodau ar y gwahanol reilffyrdd, rhai ohonynt wedi'u llunio yn Gymraeg yn wreiddiol ac eraill yn Saesneg, dyma drosi'r penodau Saesneg i'r Gymraeg a chaboli rhywfaint ar y rhai a oedd yn Gymraeg yn barod. Ac ar ôl i'r llyfr *Crwydro'r Cleddau* gael ei gyhoeddi, dyma ysgrifennu at S4C i ofyn a hoffon nhw gomisiynu cyfres o raglenni ar y rheilffyrdd bach. Gwyddwn fod gan Owen Edwards, pennaeth S4C ar y pryd, ddi-ddordeb yn y maes, a doedd hi'n ddim syndod pan gawsom ganiatâd i ffilmio cyfres o dan gyfarwyddyd Celtic Films. Cefais amser yn rhydd o'r gwaith ym 1984 i fynd allan i ffilmio ac fe ddarlledwyd y naw rhaglen ar S4C ym 1985.

Newidiadau yn yr Uned

Bûm yn gweithio yn yr Uned Gyfieithu am bymtheg mlynedd a bu'r blynyddoedd cyntaf, yn enwedig, yn ddifyr a diddorol dros ben. Yn un peth, fe ddes o hyd i wraig yno - na, nid Mary - ac ar ôl i ni fod yn briod am sbel fe adawodd fy ngwraig yr Uned i fynd yn ymchwilydd teledu ar ei liwt ei hun. Dyma ddechrau clywed am fanteision byd yr hunan-gyflogedig.

Tua diwedd fy amser yn y Swyddfa Gymreig, fe adawodd Mary a mynd i weithio ar ei liwt ei hun. Toc, penderfynodd Moc ymddeol yn gynnar, a chefais fy mhenodi'n bennaeth yr Uned. Gan mai bod yn bennaeth arni (neu, yn well byth, ar uned gyfieithu'r Cynulliad, petai hi ond wedi cael ei sefydlu yn ôl ym 1979) oedd yr unig uchelgais a fu gen i erioed, siom oedd darganfod nad oedd gen i hanner digon o staff i wneud y gwaith ac nad oedd fawr o obaith y cawn i benodi rhagor at y tîm.

Cefais ddau gyfieithydd i ymuno â mi, sef David Bullock (fy olynnydd ymhen tipyn) a Debra Pearce, ynghyd â chyfres o weithwyr dros dro a elwid yn 'casuals'. Gweithient ar contractau byr, ac roedd hynny i bob pwrpas bron â bod yn rhyw fath o brofiad gwaith iddynt. Rwy'n credu i ni gael wyth ohonynt i gyd. Un ohonynt oedd Dafydd Emyr, sydd bellach yn actor digon cyfarwydd. Pan âi Dafydd i ystafell y teipyddesau, lle'r oedd y teipyddesau Cymraeg a Saesneg yn un haid fawr gyda'i gilydd, byddai'r teipio'n distewi o dipyn i beth wrth i'r merched sylwi bod bachgen ifanc glandeg wedi cerdded i mewn ... Er i Dafydd fynd ymlaen i fyd brasach y cyfryngau, wnaeth ef ddim anghofio'i gyfnod gyda ni: fe'i clywais ymhen tipyn yn cyflwyno rhaglen radio ar gyfieithu ac yn dweud cymaint roedd ef wedi'i ddysgu wrth wneud y gwaith.

Fel y gwyr pawb sydd wedi dioddef o brinder staff, melltith y sefyllfa yw ei bod hi mor anodd cynnig unrhyw fath o hyfforddiant i newydd-ddyfodiaid, a bu hynny'n bla ar y cyfnod y bûm yn bennaeth yr Uned. Go brin y gallwn wneud unrhyw fath o gyfiawnder â David a Debra heb sôn am roi sylw i newydd-ddyfodiad ar ôl newydd-ddyfodiad a'u cyflwyno'n drylwyr i ddirgelion ffyrdd yr Uned o gyfieithu dogfennau.

Cosb y dyrchafiad a gefais oedd bod disgwyl i mi wneud rhywfaint o waith rheoli a phethau hynod ddiflas fel llunio adroddiadau blynyddol ar fy staff parhaol. On'd yw hi'n rhyfedd bod athrawon a chyfieithwyr profiadol, o gael dyrchafiad, yn cael eu symud ymlaen i wneud gwaith nad oes ganddynt yr un blewyn o ddi-ddordeb ynddo - a bod disgwyl iddynt ymaflyd mewn gweithgareddau nad oes ganddynt ddim profiad o'i wneud?

Ar ben y diflastod hwnnw, bu'n rhaid i mi ddechrau mynd ar ofyn cyfieithwyr allanol i wneud peth o waith cyfieithu'r Uned. Yn y dyddiau hynny, prin oedd y cyfieithwyr da a dibynadwy a weithiai ar eu liwt eu hunain. Cynigiwyd peth gwaith i un asiantaeth, a chael cymysgedd o waith da a gwaith digon symol. Y broblem i mi fel cwsmer oedd bod yr asiantaeth yn anfodlon addo mai at ei chyfieithydd praffaf yr âi pob darn y byddwn i'n ei hanfon ati. Tybiwyd felly mai'r peth gorau fyddai dod o hyd i bobl a fyddai'n fodlon llunio drafft o gyfieithiad a'i anfon ataf i'w gywiro. Hyd yn oed o roi cryn gyfarwyddyd, roedd angen i'r cyfieithiadau gael eu hadolygu'n drwyadl ac fe deimlwn yn aml y byddai hi wedi bod lawer

yn haws petawn i wedi gwneud y gwaith fy hun. Yn anffodus, doedd dim amser i wneud hynny, ac fe dreuliwn y rhan fwyaf o'm horiau gwaith yn ceisio caboli gwaith pobl eraill. Problem seicolegol hynny oedd bod y gwaith gorffenedig yn hanner eiddo i mi a'r hanner arall yn eiddo i'r cyfieithydd - sefyllfa anfodddhaol i'r naill a'r llall ohonom. Blinais yn gyflym ar ddarllen drwy gyfieithiadau pobl eraill. Cawswn fy mhenodi i gyfieithu, nid i olygu, ac aethai'r golygu'n fwrn.

Cyfrifiaduron

Un peth a oedd wedi corddi tipyn arna i yn ystod y misoedd olaf oedd mater cyfrifiaduron. Roedd hi'n amlwg eu bod nhw'n ddelfrydol ar gyfer cyfieithwyr gan eu bod yn cynnig ffordd hwylus dros ben o lunio cyfieithiad a'i gaboli dro ar ôl tro, petai raid. Ar y llawr uwch ein pennau roedd ystafell fawr, cynllun-agored, a honno'n llawn cyfrifiaduron. Dadl y bobl a weithiai yno oedd eu bod wrthi'n rhoi prawf ar y peiriannau hynny cyn penderfynu'n derfynol pa system i'w defnyddio. Roedd gwybod bod y fath daclau delfrydol yn cael eu defnyddio ychydig droedfeddi uwch ein pennau yn rhwystredigaeth bellach.

Gadael

Dyma benderfynu gadael. Yr unig syndod a gefais oedd cyn lleied o ofid a deimlwn wrth anfon nodyn swyddogol at ddyn yn yr adran bersonél i ddweud fy mod yn ymddiswyddo. Roeddwn i wedi disgwyl teimlo rhywfaint o siom neu ddadrithiad neu dristwch, ond na, dim byd o gwbl - neu 'ddim byd hyn', chwedl Mary.

Mae bron i bymtheg mlynedd ers i mi wneud y penderfyniad tyngedfennol hwnnw a gallaf ddweud yn hollol onest nad wyf wedi difaru dim. Er mor wahanol yw byd y cyfieithydd ar ei liwt ei hun, mae'r cyfieithydd yn rhydd – os yw'n ddigon ffodus i gael cynnig digon o waith - i weithio fel y mynn. Byddai'n rhaid i sefydliad gynnig mwy na hanner ffortiwn i'm cael i fynd i weithio ato fel gwas cyflog. Mae codi ar fore oer, gwlyb a gwyntog a gweld trueiniaid yn ymlusgo i'w gwaith yn ddigon o gyfiawnhad ynddo'i hun dros benderfynu sefydlu swyddfa yn eich ty a mynd i'ch swyddfa glyd yn sych a chynnes bob bore ...

Cyfnod rhyfedd oedd hwnnw rhwng penderfynu gadael a gadael yr Uned am y tro olaf. Roedd cymaint o bethau i'w gwneud a chymaint o bethau i'w dysgu! O ble y deuai fy nghwsmeriaid? A ddylwn i hysbysebu? Mewn gair, sut mae rhedeg busnes?

Y cwsmeriaid cyntaf

Yn ffodus, roedd ambell sefydliad newydd yn cael ei greu ar y pryd ond heb fod yn ddigon mawr i allu cyfiawnhau cyflogi cyfieithydd amser-llawn. Roedd gen i gyfaill yn gweithio yn un ohonynt. A hoffent i mi wneud gwaith iddynt? Hoffent! Yn wir, roedd gen i rai cwsmeriaid cyn i mi orffen gweithio yn yr Uned. Rhaid oedd bwrw ati'n ddiymdroi, felly, i sefydlu'r busnes.

Swyddfa

Gan fod gennym ystafell ffrynt nad oeddem yn ei defnyddio, yno y byddai fy swyddfa. Y cwstiwn nesaf oedd pa beiriannau. Cefais gyngor i fynd i siop yn Heol Charles yng Nghaerdydd ac yno'r aethom. Cyn pen dim roedd gennym gyfrifiadur Amstrad ac argraffydd Canon 'bubblejet' a oedd, o edrych yn ôl, yn anferthol o fawr. Fe gostiodd y cyfan rhyw fil a chwarter o bunnoedd, a rhywsut neu'i gilydd dyna'r swm y bydda i'n ei wario bob tro y bydda i'n prynu cyfrifiadur newydd!

Mantais prynu'r offer mewn siop leol oedd bod modd mynd â'r cyfrifiadur a'r argraffydd yn ôl yno i gael sylw petai angen. Chwarae teg iddynt, byddai'r staff yno'n ddigon parod i geisio dod o hyn i'r broblem a chynnig ateb. Fe wyddent y byddai fy musnes ar stop tra byddai ein cyfrifiadur yn eu dwylo ac fe wnaent eu gorau glas i drwsio'r nam yn gyflym. Rwy'n amau a gaem niystal gwasanaeth petaem wedi archebu'r peiriannau dros y ffôn neu'r ffacs.

Mantais delio â phennaeth y siop oedd ei fod yn barod iawn i ddweud beth na *ddylwn* i ei brynu. Os credai na fyddai'r peth-a'r-peth o werth, fe ddywedai hynny wrthyf yn blwmp ac yn blaen!

Peiriannau eraill yr oedd yn rhaid eu prynu oedd dictaffon a'r un a elwir, am ryw reswm, yn *transcriber*. Yn anffodus, nid yw'n 'transgreibio' dim; y truan sy'n teipio sy'n gorfod gwneud y gwaith hwnnw. Y cyfan wnaiff y *transcriber* yw chwarae'r tapiau. Mae dau fath o ddictaffon a *transcriber*, sef y rhai sy'n defnyddio *mini-cassette* a'r rhai sy'n defnyddio *micro-cassette*. Wn i ddim o hyd a oes i'r naill na'r llall ryw fantais arbennig. Y cyfan a wn i yw na fydd y dictaffon a'r *transcriber* byth yn dod i ben eu rhawd yr un pryd a'i bod hi'n anodd trosglwyddo i'r naill system i'r llall heb roi'r gorau i declyn sy'n dal i weithio'n iawn!

Manteision busnes cyfieithu

Un o fanteision mynd yn gyfieithydd a phrynu'ch offer eich hun yw bod yr offer yn dechrau talu amdanynt eu hunain bron yn syth. Yn y rhan fwyaf o fusnesau, rhaid buddsoddi'n helaeth mewn offer a staff, ond os nad ydych chi'n bwriadu sefydlu rhyw asiantaeth fawr yn syth, fe gewch, os byddwch chi'n lwcus, dipyn o amser i osod y busnes yn daclus ar ei draed.

Sefydlu'r busnes

Cael desg oedd y cam nesaf ac i lawr â ni i siop House of Holland a phrynu bwrdd cegin! Er nad oedd bwrdd o'r fath, efallai, cweit o safon desg yn y Gwasanaeth Sifil, mae'n dal i wneud ei waith yn ddigon cadarn. Prynu set o ddreiriau swyddfa ddaeth nesaf, a gosod y set honno wrth ymyl y bwrdd i ddal yr argraffydd. Y nod, wedi'r cyfan, oedd ceisio sicrhau bod popeth o fewn cyrraedd yn hwylus fel na fyddai angen codi o'm sedd byth a beunydd i ôl y peth hwn neu'r peth arall.

Daeth peth o'r celfi o ffynhonnell annisgwyl. Mewn ocsiwn yn Phillips yng Nghaerdydd fe welodd fy ngwraig set o offer swyddfa a ganai ryw gloch yn ei meddwl. Doedd dim label ar y celfi ond byddai rhai ohonyn nhw'n taro i'r dim yn ein swyddfa newydd. Yr unig gliw ynghylch eu tarddiad oedd eitemau arall yn yr ocsiwn, sef portread mewn olew gan David Morris o Miriam, merch yr Ambroses yng nghyfres opera sebon HTV *Dinas*. Gan fod y gyfres newydd orffen, yr oedd celfi'r set yn cael eu gwerthu, ac roedd hyd yn oed ambell i hen sgrïpt yn llechu yn y cwpwrdd ffeilio!

Wedi cael cypyrddau ffeilio, rhaid oedd trefnu system ffeilio. Yn y blynyddoedd cynnar, deuai adegau pan fyddai'r cypyrddau'n orlawn o bapurach a byddai'n rhaid chwynnu'n ddirugaredd i greu digon o le i gymryd y llwyth nesaf o ddogfennau. Bryd hynny câi gwasanaeth ailgylchu Cyngor y Ddinas sachaid neu ddwy o gyfieithiadau i'w prosesu. Gan na fyddai fawr o neb yn anfon gwaith atom ar ddisg, y peth doethaf oedd cadw'r copi o'r gwreiddiol ynghyd â'r cyfieithiad fel bod modd troi at hen ddogfennau a gawsai eu cyfieithu fisoedd ynghynt a gweld sut y cawsent eu cyfieithu. Heddiw, mae'n bosibl cael gwaith drwy e-bost, ei gyfieithu a'i anfon yn ôl heb i air ohono orfod ymddangos ar ddu a gwyn. Ond i gyfieithydd fel fi sy'n gweithio ar ddictaffon ac yn cael drafft i'w gywiro, mae'r delfryd o'r swyddfa ddi-bapur mor bell i ffwrdd ag erioed.

Ac o sôn am bapur, cam arall yn y broses o sefydlu'ch busnes eich hun yw cael eich papur swyddogol. Beth fyddwch chi'n galw'ch busnes? A fyddwch chi'n defnyddio'ch enw'ch hun, neu'n 'cuddio' y tu ôl i ryw deitl twt? Siôn (neu Siân) Williams, Cyfieithydd? Siôn Williams (BA Anrhydedd) Cyfieithydd Campus, neu Siôn Williams, Cyfieithydd, Golygydd, Ymchwilydd, Cynllunydd Iaith, Arbenigwr ac yn y blaen? Ac os dewiswch deitl twt ('Pont' oedd fy ffefryn cyn cychwyn, ond cafodd ei 'ddwyn' gan rywun arall), pwy fyddai'n gwybod mai chi oedd yn rhedeg y busnes? Un ateb i'r broblem o ddenu sylw oedd yr un a ddyfeisiwyd gan bennaeth Aardvark Translations. Fe sicrhâi'r enw anghyffredin hwnnw mai enw ei asiantaeth ef a ddeuai'n gyntaf ar bob rhestr o gyfieithwyr!

Gan fy mod am bwysleisio mai gwasanaeth a gynigiwn, ac mai cyfieithu oedd fy mhrif ddi-ddordeb, dyma ddefnyddio fy enw a rhoi 'Gwasanaeth Cyfieithu' wrth ei gwt. Ar y cychwyn, fe dalais i gwmmi argraffu fy mhapur swyddogol, fy slipiau cyfarch a'm cardiau busnes, ond sylweddolais cyn hir nad oedd fawr o bwynt cynnig cerdyn busnes i neb. Rhif ffôn yr oedd ar ddarpar gwsmeriaid ei angen, ac mae gen i bentwr o gardiau busnes diwerth yn fy nrâr o hyd. Wrth i safon peiriannau argraffu wella, sylweddolais y gallwn gynhyrchu fy mhapur swyddogol fy hun. Symbyliad arall oedd y ffaith fod BT wedi newid cod STD Caerdydd ddwywaith mewn ychydig flynyddoedd a bod Swyddfa'r Post wedi newid ein cod post!

Ond yn ôl at sefydlu'r busnes. Cynllunio'r swyddfa ddaeth nesaf, a'r nod oedd gosod popeth o fewn cyrraedd hwylus. Rhaid cofio, serch hynny, fod peryglon ynghlwm wrth dreulio gormod o amser yn eistedd ar gadair heb symud cam o'r fan. Gosodais un cwpwrdd ffeilio'n agos at y ddesg, a rhoi un arall ym mhen draw'r ystafell fel bod rhaid codi ambell waith i gyrraedd y cwpwrdd hwnnw. Cefais afael ar grefftwr o ddyn i godi silffoedd cadarn rhag ofn i'r holl lyfrau syrthio ar ein pennau ryw ddiwrnod. Go brin bod cynllun fy swyddfa'n cyd-fynd â rheolau caeth yr hen Swyddfa Gymreig ynghylch hyn-a-hyn o le i bob gweithiwr, ond mae'r cyfan wedi gweithio'n ddigon hwylus - hyd yn hyn beth bynnag.

Problem fawr yr oes i gyfieithwyr, wrth gwrs, yw ble mae gosod *Geiriadur yr Academi!* Drwy lwc, mae gen i sofffa wrth law, ac o osod astell ar un o freichiau honno mae gen i drefniant sy'n ddigon cadarn i ddal y campwaith mawr yn ei le. Nid nad yw wedi syrthio ar lawr fwy nag unwaith a malu ei gloriau, ond mae'n drefniant digon hwylus at ei gilydd.

I mi, canlyniad annisgwyl sefydlu swyddfa yw bod apêl catalogau offer swyddfa wedi cynyddu'n aruthrol. Doedd gen i ddim diddordeb ynddynt o'r blaen ond bellach gallaf eu hastudio am hydoedd, er 'mod i'n gwybod yn iawn mai fi, ac nid y wladwriaeth, fydd yn gorfod talu am bob eitem.

Arferion gweithio

Cyn i mi adael y Swyddfa Gymreig, byddai pobl yn dweud wrthyf na allen nhw byth â gweithio gartref am nad oedd ganddyn nhw mo'r ddisgyblaeth. Fe sylweddolais yn fuan iawn mai fel arall yr oedd hi. Y perygl mawr yw i ddyn fynd yn gaeth i'w swyddfa, a rhaid arfer cryn dipyn o ddisgyblaeth i beidio â gweithio gormod. Gan fod eich incwm yn dibynnu ar eich cynnyrch, y demtasiwn yw gweithio oriau dwl bron yn ddiarwybod i chi'ch hun a blino cymaint nes gwneud mwy o gamgymeriadau nag arfer! Rhaid oedd osgoi syrthio i'r fagl honno.

Y penderfyniad cyntaf oedd mynd am dro bob bore - os byddai'r tywydd yn weddol - a phob amser cinio. Gan fod parc braf o fewn pellter cerdded i'r ty, rwyf wedi bod yn troedio'r llwybr o amgylch y parc hwnnw'n gyson ers bron i bymtheg mlynedd. Pobl sy'n mynd â'u cwn am dro yw'r mwyafrif llethol o'm cyd-gerddwyr, a chan nad oedd gen i gi byddai llawer ohonyn nhw'n edrych yn eithaf amheus arna i. Am beth amser, teimlwn braidd yn grac wrthynt gan

fod gen i gystal hawl â nhw i gerdded ar hyd y lle! Ond ymhen tipyn, gwelais ddyn arall yn cerdded rownd y parc yn ddi-gi, a'r cwestiwn ddaeth i'm meddwl yn syth oedd 'Beth mae hwnna'n ei wneud yn cerdded yma heb gi ...?'

O ran oriau gweithio, fe sylweddolais cyn pen dim mai'r drefn orau fyddai gweithio oriau swyddfa arferol sef, yn fras, o ryw chwarter i naw y bore tan ryw chwarter i bump. Byddai hynny'n sicrhau y byddwn i yma i ateb cwestiynau fy nghwsmeriaid ac, yn bwysicach efallai, y bydden nhw wrth eu desgiau i ateb fy nghwestiynau i. Doedd dim byd i'm rhwystro, wrth gwrs, rhag gweithio ychydig gyda'r nos a thros y penwythnos ambell waith. O leiaf fe gewch chi dipyn o dawelwch i wneud eich gwaith yn iawn bryd hynny. Ond gormod o bwddin dagith gi, medden nhw, ac mae hynny'n ddigon gwir am gyfieithu. Am ryw reswm, allwn i ddim â chodi stêm i weithio ar ddydd Sadwrn ac erbyn hyn mae'r ysfa i weithio ar ddydd Sul wedi pylu, diolch byth. Deuai fy ngwraig i mewn weithiau a dweud 'Mae golwg flinedig arnat ti', ac roedd hynny'n fwy na digon o esgus dros roi'r ffidil yn y to!

Roedd gwyliau'n anodd eu trefnu. I ddechrau, rhaid oedd rhoi gwybod i bob un o'm cwsmeriaid bob tro'r oeddwn i'n bwriadu cymryd diwrnod neu ddau - neu fwy - yn rhydd. Yn y Swyddfa Gymreig, y cyfan a wnaech fyddai dweud wrth eich pennaeth eich bod yn mynd, ac oni bai fod rhyw broblem fawr yn codi'i phen, i ffwrdd â chi! Ond ym myd yr hunanliwtiwr, roedd pethau ychydig bach yn fwy cymhleth. Yn un peth, doeddech chi ddim am fynd i ffwrdd pan fyddai ar eich cwsmeriaid gorau eich angen chi fwyaf. Doeddech chi ddim ychwaith am iddyn nhw fynd at gyfieithydd arall ac aros gyda hwnnw neu honno. Eto, o bryd i'w gilydd, pan fyddai dyn ar ei wyliau ac yn meddwl 'Dyna braf oedd cael peidio â gwneud y gwaith', y peth cyntaf a'i hwynebai ar ôl cyrraedd fyddai'r union waith hwnnw. Roedd y cwsmer wedi penderfynu ei fod yn well ganddo aros am ychydig na mynd at rywun arall ...

Arian!

Penderfyniad hollbwysig arall oedd pennu fy ffioedd. Rhaid oedd cael rhyw fath o batrwm: hyn a hyn am bob mil o eiriau, hyn a hyn yr awr am waith nad oedd modd ei fesur yn ôl nifer y geiriau, hyn a hyn o isafswm ffi (un i gwsmeriaid cyson ac un llawer uwch i gwsmeriaid achlysurol ac asiantaethau), ac yn y blaen.

'Wyt ti'n cael digon o waith?', holodd cyfaill i mi heb fod yn hir iawn ar ôl i mi fentro ar fy liwt fy hun. 'Ydw,' meddwn i. 'Coda dy ffi!' meddai.

Rhaid oedd dysgu anfon anfonebau at gwsmeriaid. Ar ôl pymtheg mlynedd o gael fy nhalu ar ddiwedd pob mis yn y Swyddfa Gymreig, roedd rhaid neilltuo amser i drefn weinyddol a sicrhâi fod yr arian yn llifo i'n coffrau'n gyson. Peth rhyfedd ar y dechrau oedd rhestru pob darn o waith, nodi cost pob un ac anfon anfoneb.

Yn ffodus i mi, talai'r rhan fwyaf o'm cwsmeriaid yn ddigon prydlon. O dro i dro, deuai ambell un heibio a dweud 'Mae gen i siec i ti ar fy nesg'. Byd hynny, byddwn i'n gorfod dal fy nhafod a pheidio â gofyn 'Pam na fyddet ti wedi dod â hi gyda ti, 'te'?' Ond lleiafrif oedd y rheiny, a phrin hefyd oedd y rhai a fethodd dalu. Mae'n wir bod busnes un cwmni wedi mynd i'r wal cyn iddyn nhw fy nhalu, ond darn bach o waith roeddwn i wedi'i wneud iddyn nhw, drwy lwc.

Dysgais hefyd beidio ag anfon anfoneb ar unwaith. O dro i dro, deuai cwsmer â phroflenni i mi eu cywiro a byddai'r cywiro hwnnw'n cynnwys ychwanegu newidiadau 'munud olaf' y cwsmer at y copi Cymraeg. Os byddai'r anfoneb wedi'i hanfon gyda'r cyfieithiad, roedd hi'n anodd iawn codi tâl am fanion o'r fath. Gwell aros ychydig ddyddiau a chodi tâl am y cyfan!

Ac o sôn am godi tâl, fe ddes i ar draws un asiantaeth a ddisgwyliai i'r cyfieithydd druan dalu'r cludiant wrth anfon ei gyfieithiad atynt drwy'r post. Yn fy achos i, roedd y gost yn rhai punnoedd. Wnes i ddim rhagor o waith iddyn nhw.

Treth ar Werth

Erbyn yr ail flwyddyn, cefais wybod gan fy nghyfrifydd fy mod wedi croesi'r trothwy a bod rhaid codi Treth ar Werth ar fy nghwsmeriaid. Bu'n rhaid i mi hyd yn oed fynd ar ofyn y cwsmeriaid a oedd eisoes wedi fy nhalu a gofyn iddynt dalu TAW . Profiad diflas iawn.

Ymhen rhai misoedd, daeth swyddog TAW i'm gweld. Treuliodd beth amser yn ceisio meddwl am broblem a allai godi. Ymhen tipyn, cyhoeddodd nad oedd problem ac aeth i ffwrdd!

Trefniant rhyfedd yw TAW. Fi oedd yr unig un a fyddai ar ei ennill gan fy mod i'n gallu hawlio arian yn ôl (neu'n hytrach, yn peidio â gorfod ei dalu) ar bethau i'r busnes a phetrol ac ati, ond roedd ei hawlio'n fwy o boen na'i gwerth.

Er hynny, yr oedd rhyw statws ynghlwm wrth dalu TAW. Pan ysgrifennais erthygl i'r *Western Mail* un tro a chodi TAW am fy ngwaith, ymateb yr is-olygydd oedd 'Ah, a professional!'

Diolch i sawl Canghellor, fe godwyd trothwy talu TAW yn eitha sylweddol, ac ymhen rhai blynnyddoedd bu modd i mi ddatgofrestru, a diolch byth am hynny. Y peth rhyfedd oedd fy mod i, wrth ddatgofrestru, yn cael cadw tipyn o'r TAW a gawsai ei thalu ar fy nghyfieithiadau, a doedd dim disgwyl i mi dalu dim yn ôl i'm cwsmeriaid. Rhyfedd o drefn.

Enillion

Rhyfedd hefyd oedd gweld y cyfrifon a baratowyd ar fy nghyfer gan y cyfrifydd ar ddiwedd fy mlwyddyn gyntaf. Mewn swydd gyffredin, gorau po fwya'r enillwch chi. Wrth weithio ar eich liwt eich hun, ar y llaw arall, gorau po leiaf yw hi – wel, gorau po leia fydd y ffigur ar ôl i'r cyfrifydd hawlio drosoch chi bopeth y mae'r gyfraith yn ei ganiatáu! Gweithiais yn galetach yn ystod yr ail flwyddyn nag yn y flwyddyn gyntaf, ond roedd fy enillion trethadwy'n is ...

Manteision

Os oedd dysgu am drefn weinyddol newydd a ffordd newydd o weithio yn brofiad diddorol ac ar adegau'n agoriad llygad, roedd i'r byd newydd hwn ei fanteision, a'r pennaf yn eu plith oedd nad oedd angen ysgrifennu adroddiadau blynnyddol ar eich staff. Roeddwn i'n rhydd unwaith eto rhag unrhyw ddyletswyddau rheoli, a chan mai cyfieithydd roeddwn i eisiau bod, cawn gyfieithu faint fynwn i (bron!) heb orfod meddwl am bethau diflas fel rhinweddau lluosog a ffaeleddau prin fy staff.

Profiad newydd arall oedd mynd at y cyfrifydd y soniais amdano gynnu. Cam cyntaf hwnnw, wrth edrych ar fy mhapurau, oedd cyhoeddi bod pobl y Dreth Incwm wedi bod yn fy nhrethu fel dyn sengl er fy mod i'n briod ers tro. Hawliodd ddigon o arian yn ôl i helpu i dalu am offer newydd i'r swyddfa.

Cam arall oedd dweud wrth ein dyn yswiriant am y newid byd – y symud o siwt i liwt - a threfnu talu i gronfa bensiwn breifat a thalu hefyd am yswiriant salwch. Fel pob busnes, rhaid talu allan cryn dipyn, ac mae hynny'n rheswm cwbl ddilys dros hawlio tâl anrhydeddus am eich gwaith!

Yn rhyfedd iawn, does gen i fawr o gof o ddiwrnod cyntaf y busnes. Roeddwn i wedi cael tipyn o waith oddi wrth wahanol gwsmeriaid cyn i mi adael y Swyddfa Gymreig a rhaid oedd bwrw ati'n syth i gyfieithu er ein bod ni ymhell o feistroli'r cyfrifiadur newydd.

Peth arall a ddysgais cyn hir oedd cymaint o bethau mewn swyddfa 'sefydliadol' sydd wedi'u trefnu ar eich cyfer. Er enghraifft, deuai rhyw negesydd heibio bob hyn a hyn i adael gwaith i ni yn y 'badell' ac i fynd ymaith â'r gwaith roeddem wedi'i orffen. Yn eich swyddfa newydd, rhaid i chi sefydlu'ch trefn eich hun i sicrhau bod cofnodion o anfonebau, derbynebau, rhifau archebion gwaith, taliadau ac ati'n cael eu cadw'n fanwl-gywir ac mewn rhyw fath o drefn gan mai'r disgwyl yw i chi gadw papurau'ch busnes am chwe blynedd!

Cnoc ar y drws

Dysgais ambell beth arall hefyd. O bryd i'w gilydd deuai gwyr a gwragedd i'n stryd ni i genhadu, i werthu gwydr dwbl neu i werthu sothach. Un tric defnyddiol yw mynd at y drws â beiro coch yn eich llaw. Allan nhw ddim peidio â sylwi eich bod chi'n brysur a fyddan nhw fawr o dro yn dweud eu neges. Mae'n help hefyd os edrychwch chi braidd yn wyllt arnyn nhw, fel petaech ar ganol gwneud rhywbeth llawer pwysicach. Dysgais fod yn galon galed hyd yn oed wrth y bechgyn truenus sy'n cymryd arnyn nhw eu bod yn dioddef o ryw nam er mwyn eich hudo i dalu'r drud am offer diwerth. Ateb symlach na'r un yw peidio ag agor y drws o gwbl. Wedi'r cyfan, does dim deddf gwlad sy'n mynnu'ch bod chi'n agor y drws a cheisio dal pen rheswm â phob rhyw ddieithryn sy'n digwydd taro heibio. Drwy lwc, mae fy nesg wrth ffenestr flaen y ty ac yn aml gallaf weld y cenhadon a'r gwerthwyr yn dod o bell. Rhaid bod yn ofalus, wrth reswm, fod dyn yn agor y drws i'r dynion nwy, trydan a dwr sy'n galw heibio bob hyn a hyn.

Cwsmeriaid

Elfen bwysicaf pob busnes, wrth gwrs, yw ei gwsmeriaid. Fe fues i'n ddigon ffodus, fel y soniais, i gael rhai cwsmeriaid hyd yn oed cyn i mi adael y Swyddfa Gymreig. Bu David Bullock, fy olynydd fel pennaeth yr Uned Gyfieithu, a Wil Petherbridge, cyfieithydd Coleg Aberystwyth ac Ysgrifennydd Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru ar y pryd, yn ddigon caredig i gynnig fy enw i bobl a ddeuai atyn nhw i ofyn am gyfieithydd. Daeth un cwsmer gyda mi o'r Swyddfa Gymreig, a thrwy lwc a bendith fe fu'n un o'm cwsmeriaid gorau am flynyddoedd maith. O dipyn i beth dysgais fod rhaid gwrthod cymryd cwsmeriaid newydd, er mor groes i'r graen oedd gwneud hynny. Gan fod rhyw hanner dwsin o gwsmeriaid gweddol o faint a rhyw ddwsin o fân gwsmeriaid yn hen ddigon i sicrhau llif cyson o waith bryd hynny, y broblem fwyaf oedd cyfeirio cwsmeriaid ymlaen at gyfieithwyr dibynadwy.

O sôn am lif cyson, rwy'n dal i ryfeddu hyd heddiw *fod* y llif wedi bod mor gyson. Byddai dyn yn disgwyl i'r gwaith gyrraedd mewn hyrddiau gan ei foddi un funud a'i adael yn segur y funud nesaf. Ond nid felly y mae hi wedi bod, drwy drugaredd. Ambell waith - a dim ond ambell waith - byddwn i'n codi yn y bore heb unrhyw waith i'w wneud, ond deuai'r postmon heibio â darn annisgwyl oddi wrth un cwsmer a deuai darn arall drwy'r ffacs, ac felly ymlaen nes cyrraedd diwedd y dydd yn daclus a phob darn wedi'i gyfieithu a dim byd yn aros at fore drannoeth. A thrannoeth deuai'r postmon â phwt oddi wrth rywun a deuai darn arall drwy'r ffacs ac ymlaen â ni ...

Peth defnyddiol, wrth gwrs, yw bod â chwsmer 'wrth gefn' y gallwch chi droi ato am waith pan fydd pethau'n distewi. Er hynny, rhaid pwylllo. Mae hi wedi digwydd cyn hyn fy mod i wedi troi at fy nghwsmer wrth gefn ac wedi cael addewid o waith yn syth, ond bod un o'm cwsmeriaid cyson wedi ffonio ymhen *epiliadau* i gynnig llwyth o waith!

Cyfnodau tawel

Y peth anoddaf, yn aml, yw dygymod â chyfnod tawel a chithau'n gwybod bod tomen o waith ar y ffordd yn rhywle. Bryd hynny, am ryw reswm, mae'n anodd ymlacio. Rwy'n cofio'r Parchedig Wyre Lewis o Rosllannerchrugog, ac yntau ymhell dros ei ddeg a phedwar ugain - ac yn dal i yrru, er mawr ddychryn i blismon y pentref - yn adrodd ar bregeth hanes sgwrs rhyngddo a morwr o'r Rhos a gawsai ei ddal ar long yn y *doldrums*. 'Beth wnaethoch chi,' holodd Mr Lewis, 'diogi a mwynhau?' 'Naddo, wir,' atebodd y morwr, 'cadw pob darn o'r *rigging* yn dynn rhag ofn i'r chwa ysgafna o wynt ddod heibio!' Wn i ddim pa bwynt wnaeth yr hen Wyre Lewis annwyl ar gorn yr hanes, ond bydda i'n aml yn cofio'r stori honno pan fydd hi'n *ddoldrums* ar lif fy ngwaith. Mae'n gysur mawr.

Syndod arall yw bod y gwaith, ran amlaf, yn tawelu pan oedd angen iddo dawelu. Weithiau, byddai hyd yn oed y galwadau ffôn yn prinhaus pan fyddai angen diwrnod tawel arnon ni i orffen darn o waith.

Heb fod yn hir iawn ar ôl sefydlu'r busnes, dyma sylweddoli bod angen chwynnu tipyn ar y gwaith a wnawn a dod i'r casgliad, yn anfoddog braidd, ei bod hi'n mynd yn fwyfwy anodd cyfuno cyfieithu ar bapur a chyfieithu ar y pryd. Câl cyfarfodydd Pwyllgor Llenyddiaeth Cyngor y Celfyddydau eu cynnal ar ddydd Gwener, a dyna'r union ddiwrnod y byddai'r mwyafrif o'm cwsmeriaid yn disgwyl cael eu gwaith yn ôl. Bu'n rhaid rhoi'r gorau i gyfieithu ar y pryd er cymaint y gwnes i fwynhau'r her a'r cyffro. Ar y llaw arall, byddai'r cyfnodau o segurdod yn y cyfarfodydd hynny, pan allwn i fod yn gwneud rhywbeth tipyn amgenach â'm hamser, yn dân ar fy nghroen.

Hysbysebu?

Mater arall a gododd tua'r un pryd oedd a ddylwn i hysbysebu. Deuai ambell gais i hysbysebu ynghlwm wrth ryw fath o awgrym y dylwn i fod yn rhan o ryw gynllwyn i ddangos bod digon o gyfieithwyr ar gael i gyfieithu stffiff unrhyw ddarpar gwsmer. Yn y diwedd, dyma ganiatáu i hysbyseb fach, fawr mwy na'm henw a'm cyfeiriad, ymddangos yn y *Western Mail*. Doeddwn i ddim yn fodlon ar yr hysbyseb pan ymddangosodd hi, a dyma dyngu llw nad hysbysebwn byth eto. Wedi'r cyfan, fydd Rolls-Royce byth yn hysbysebu!

Agwedd at gwsmeriaid

Mae gen i gyngor gwerthfawr i unrhyw gyfieithydd sy'n ystyried sut mae trin ei gwsmeriaid. 'Cerwch hwy, ond peidiwch â chredu'r un gair ddwedan nhw!' Hyd yn oed heddiw, pan fo cyfrifiadur yn gallu dweud wrth y cwsmer yn ddigon rhwydd faint o eiriau sydd mewn dogfen, fe synnech chi faint o bobl sy'n ceisio amcangyfrif nifer y geiriau mewn darn a rhoi ffigur sydd tua hanner y ffigur iawn.

Gair arall o gyngor a gefais gan gyn-gydweithiwr o was sifil oedd 'Pan fydd rhywun yn gofyn i ti faint o amser y cymer darn o waith, meddylia faint rwy'ti'n credu y cymer e - a dybla'r amser hwnnw. Bydd yn llawer nes at y gwir.' Gwir pob gair.

Rwyd hefyd wedi dysgu amau gosodiad fel 'Rydyn ni wedi marcio pob newid yn y testun' pan fydd cwsmer yn gofyn i chi gyfieithu'r fersiwn diweddaraf o'u dogfen. Go brin bod neb yn sylwi ar bob newid. Wn i ddim sawl gwaith yr wyf wedi cyfieithu dogfen lle mae'r 'newidiadau i gyd wedi'u marcio' a chael bod llond dwrn, o leiaf, o newidiadau wedi llwyddo i ochrgamu llygad 'barcud' y cwsmer. Y gamp, wrth gwrs, yw sylwi ar bob newid a gwneud yn siwr eich bod *chi* yn fwy llygadog na hwy.

Cynghori cwsmeriaid

Mater sensitif sy'n codi o bryd i'w gilydd yw cynnig cyngor i'ch cwsmer. Bydd y rhan fwyaf o'r dogfennau sy'n dod ataf i'w cyfieithu yn cynnwys gwallau teipio, gwallau ffeithiol neu wallau gramadegol. Prawf da ar eich cwsmer yw ei ymateb pan dynnwch chi ei sylw at y gwallau hynny. Bydd y goreuon bob amser yn diolch ac yn gwerthfawrogi am eu bod yn deall, neu'n dysgu deall, nad yw cyfieithydd yn darllen y testun gwreiddiol fel y byddan nhw'n ei wneud. Gan amlaf, bydd eu dogfen yn ffrwyth llawer o ailfeddwl ac ailysgrifennu a dileu ac ychwanegu, a bydd y staff wedi gweld cymaint o fersiynau ohono nes blino'n lân ar ei weld. Gallant fethu â gweld hyn yn oed y camgymeriadau symlaf. Mae sawl cwsmer wedi cael achos i ddiolch i gyfieithydd craff am weld brychau digon elfennol. A phwy a wyr na fydd y sawl sy'n llugoer ei agwedd at y Gymraeg yn diolch yn ddistaw bach bod cyfieithydd wedi bwrw golwg dros y gwaith?

Cadwch draw, felly, oddi wrth y cwsmer sy'n cyfarth arnoch os tynnwch ei sylw at y gwall yma a'r gwall acw. Os na all werthfawrogi'ch diddordeb deallus yn ei waith, naw wfft iddo.

Colli cwsmeriaid

Mater arall yw teyrngarwch, o'r ddau gyfeiriad. Gall cwsmer ddod atoch chi am gyfnod - a diflannu. Gall fod wedi dod o hyd i rywun rhatach (ond is ei safon, wrth gwrs!), gall fod wedi penodi ei gyfieithydd ei hun, neu fe all ei waith fod wedi'i drosglwyddo i sefydliad arall. Mae pob un o'r rhain wedi digwydd i'm cwsmeriaid i. Yn achos y cyrff a benododd eu cyfieithwyr eu hunain, fe gyfieithais gofnodion y cyfarfod pryd y penderfynwyd penodi cyfieithydd. Cyfieithais yr hysbyseb am swydd y cyfieithydd. Cyfieithais y disgrifiad o'r swydd. A'r cyfan gan wybod na chawn i, maes o law, ragor o waith oddi wrth y cwsmer hwnnw. Teimlwn fel petawn i'n llofnodi fy nhystysgrif marwolaeth fy hun!

Ond nid dyna ddiwedd y stori. Cyn hir, byddai staff o'r sefydliad hwnnw - a hyd yn oed y cyfieithydd newydd - yn ffonio i holi a allwn i gyfieithu rhywbeth iddynt am fod y cyfieithydd newydd druan dros ei ben a'i glustiau mewn gwaith! Erbyn hynny, yn anffodus, byddwn wedi cytuno i gymryd cwsmer arall ac felly'n rhy brysur i helpu fy hen gwsmer ... On'd yw hi'n rhyfedd fel y mae'r rhod yn troi?

Mater arall yw colli cwsmeriaid yn fwiadol. Dysgais wers bwysig pan aeth fy nghwsmeriaid yn rhy niferus. Penderfynais ddweud wrth un hen gwsmer na allwn gyfieithu iddo mwyach. Bron nad oedd y syniad wedi croesi fy meddwl nag y distawodd llif y gwaith oddi wrth fy holl gwsmeriaid eraill. Yr unig un a ddaliodd i anfon gwaith ataf yn un llif cyson ar hyd y cyfnod hwnnw oedd yr hen gwsmer ffyddlon, bendith ar ei ben. Rywsut neu'i gilydd, chefais i byth wared arno!

Mater arall yw amseru'ch gwaith. Mae 'faint y byddi di'n ei gyfieithu mewn diwrnod?' neu 'faint o amser gymerai hi i ti gyfieithu deg tudalen?' yn gwestiynau sy'n cael eu gofyn bob hyn a hyn, a rhaid cyfaddef fy mod yn ei chael traferth rhoi ateb pendant. Oherwydd y ffordd rwy'n gweithio drwy ddictaffon ac yna gywiro'r drafft, rhyw fod ar ganol dau neu dri, neu hyd yn oed bedwar neu bump, o ddarnau o waith y bydda i.

Gall y gwaith beidio â bod yn gyfieithu o'r newydd bob amser. Bydd ambell gwsmer yn gofyn i mi ddiweddarau dogfennau rwyf wedi'u cyfieithu o'r blaen (neu, yn waeth byth, yn ddogfennau mae rhywun arall wedi'u cyfieithu - a da chi, ceisiwch gadw draw oddi wrth waith o'r fath gan ei fod gan amlaf o lawer yn achosi mwy o boen na chyfieithu'r cyfan o'r newydd!).

Cyngor arall sydd gen i bob darpar gyfieithydd ar ei liwt ei hun yw gwrthod gwaith ar ei ben, os bydd rhaid. Gwell gwneud hynny na'i anfon yn ôl, heb ei orffen, yn ddiweddarach. Bydd

eich cwsmer yn parchu barn onest a phendant ac yn falch – er gwaetha’i siom – o gael gwybod ble mae’n sefyll.

Weithiau, fe allwch chi annog y cwsmer i gynnwys dimensiwn Cymreig i’w waith a chyfeirio at fodolaeth sefydliadau, llyfrau a gwefannau ac ati sydd ar gael yn Gymraeg.

Y peth pwysig bob amser i mi yw bod y cyfieithydd sy’n gweithio ar ei liwt ei hun (fel pob cyfieithydd arall) yn ymddwyn yn gwbl broffesiynol. Gan fod y cwsmer wedi dod atoch chi, ef neu hi yw'r cwsmer gorau (a’r doethaf!) yn y byd ac mae'n haeddu cael eich gwaith gorau.

Peidiwch ag ofni dangos anwybodaeth ddeallus. Yn y gorffennol, rwyf wedi gweld cyfieithwyr yn ailgyfieithu darnau go faith yn hytrach na gofyn i’r cwsmer a oedd y deunydd wedi’i gyfieithu’n barod ac a fyddai modd cael copi ohono er mwyn gallu copio’r cyfieithiad. Un o fanteision y We yw bod hynny’n llai tebyg o ddigwydd.

Fe allwn i draethu’n hir ac yn huawdl am isgontractio gwaith cyfieithu. Ond wna i ddim. Y cyfan a ddywedaf yw bod isgontractio heb yn wybod i’r cwsmer yn beth dwl a pheryglus i’w wneud. Gallwch chi gael canlyniadau digon rhyfedd pan fydd dau gyfieithydd yn yr un swyddfa’n rhannu darn o waith! Un tro, cefais gyfieithiad i’w olygu. Roedd yn gyfres o unedau, a theitl pob uned yn ymddangos ar frig y ddalen gyntaf ac yna ar ddiwedd y llith. Roedd dau gyfieithydd – o leia – wedi bod wrthi, a’u cyfieithiadau o’r teitlau ar ddechrau a diwedd pob uned yn gwbl wahanol. Mae’n ddigon gwael pan fydd y cwsmer yn anfon adroddiad atoch chi a’r penawdau ar ddalen y cynnwys yn wahanol i’r rhai sydd yn y testun!

A symud ymlaen at ddatblygiad arall nad wyf yn rhyw hoff ohono, rhaid dweud ei bod yn well gennyf beidio â gweithio ar sail tendr. Heblaw bod y gwaith o lenwi’r ffurflenni tendro yn fwrn, mae’ch clymu’ch hun i gwsmer yn mynd yn groes i holl ysbryd gweithio ar eich liwt eich hun. Un tro, daeth cwsmer ataf a holi am bris tendr am ddwy flynedd o waith. Beth ddylwn i ei wneud? Cadw’r ffi yr un peth am ddwy flynedd? Yn y diwedd, penderfynais pa ffi y byddwn i’n ei chodi y flwyddyn nesaf ond un a chynnig disgownt am y flwyddyn gyntaf!

Gall y cyfieithydd sy’n gweithio ar ei liwt ei hun hefyd gael cynnig gwaith sy’n mynd ag ef neu hi i ryw faes cysylltiedig neu i faes sy’n *ymwneud* â chyfieithu. Enghraifft o’r cyntaf yw’r ceisiadau yr arferwn eu cael am fy sylwadau ar enwau brandiau. ‘Ydy’r enw hwn yn golygu rhywbeth yn eich iaith chi?’ oedd y cwestiwn a gawn amlaf. Gwnes y pwynt wrth un holwr fod i ‘stilo’ ystyr arbennig yn iaith Ceredigion, ond fe fedyddiwyd y Fiat Stilo â’r enw hwnnw er gwaethaf fy sylwadau!

Enghraifft o fynd i weithio mewn maes cysylltiedig yw ambell gais a gefais i lunio papur prawf cyfieithu i ymgeiswyr am ryw swydd lle’r oedd y Gymraeg yn rhan o’r gwaith ond nad oedd neb ar y panel cyf-weld yn ddigon rhugl ei Gymraeg i farnu safon iaith yr ymgeisydd. Gall gwaith o’r fath fod yn ddigon diddorol am ei fod yn gyfle i gyfarfod â’r ymgeiswyr a chael cipolwg ar waith a swyddfeydd pobl eraill. Gall hefyd fod yn gostus. Mewn dau gyfweiliad, fe gyfarfyddais ag ymgeiswyr a oedd wedi ysgrifennu llyfrau. Hoffais hwy gymaint nes i mi brynu eu llyfrau!

Enghraifft o gyfuno gwaith sy’n ymwneud â chyfieithu a mynd i faes cysylltiedig oedd cael gwahoddiad i fod yn aelod o’r tîm a luniodd eiriadur y Cynulliad neu, a rhoi iddo’i deitl rhwysgfawr ac ofnadwy, *Geiriadur Terminoleg Trefniadaeth* y Cynulliad. Y gwahoddiad hwnnw oedd man cychwyn cyfeillgarwch â Leo a Cassandra McNeir. Lluniwr geiriaduron amlieithog yw Leo. Os bydd rhywrai ar hyd a lled Ewrop am gael geirfa ym myd llywodraeth leol neu’r llywodraeth ganolog, a honno’n rhestru geiriau mewn hyd at dair iaith ar ddeg, at Leo y byddant yn troi. Er bod ganddo lond ceg o Ffrangeg ac Almaeneg, heb sôn am Saesneg

coeth, nid yw'r hanner-Albanwr a hanner-Cymro hwn - sy'n hanu o'r Rhondda ar ochr ei fam - yn gwybod cymaint â hynny o Gymraeg (er ei fod yn breuddwydio bellach, meddai, am eiriau fel 'isddeddfwriaeth'), ond bydd yn bwrw ati i gasglu geirfa Saesneg y maes a sefydlu tîm o arbenigwyr ym mha iaith bynnag y mae'n ymwneud â hi ac yna'n arwain ac yn trefnu gweithgarwch y tîm hwnnw. Bydd ef hefyd, drwy godi'n fore, yn ysgrifennu nofelau al lofruddiaethau sydd â chamlesi'n gefndir iddynt! Ar ôl i'r tîm wneud yr holl benderfyniadau geiriadurol, bydd Cassandra'n cydio yn y gwaith ac yn defnyddio'i dawn gyfrifiadurol ddiarnheul i osod y cyfan allan ar bapur yn chwaethus iawn.

Anfanteision

Wedi traethu'n ddi-ben-draw am fanteision a phleserau gweithio ar eich liwt eich hun, rhaid gofyn a oes anfanteision? Wel, oes, wrth gwrs, ond rhai pitw ydyn nhw o gymharu â gweithio i sefydliad. Un ohonynt yw colli'r teimlad o fod yn rhan o dîm. Gall rhai cyfieithwyr masnachol deimlo'n unig – yn unig yn broffesiynol, felly – am nad oes cyfle iddynt gael sgwrs ddifyr â hwn a'r llall yn y gwaith ac am nad oes cystal cyfle i drafod problemau cyfieithu, i ddysgu oddi wrth eu cydweithwyr, ac i hyfforddi cydweithwyr newydd. Caffaeliad mawr o ran lleddfu unigrwydd proffesiynol o'r fath yw'r cylch trafod bywiog hwnnw, *welsh-termau-cymraeg*, sy'n defnyddio cyfleustra'r we i fanteisio ar brofiad a gwybodaeth amryw byd o gyfieithwyr. Bydd y trafodaethau arno'n f'atgoffa'n aml o'r math o drafodaethau difyr a gaem ni o amgylch y bwrdd yn yr Uned Gyfieithu slawer dydd, a'r rheiny'n gymysgedd o'r doeth, y digri a'r dwl. Er ei bod yn peri rhywfaint o fraw i mi fod archif *welsh-termau-cymraeg* yn mynd i gadw'n cyfraniadau ni i gyd am flynyddoedd maith, y cyfan y galla i ei ddweud yw 'druan â'r sawl fydd yn darllen drwy'r archifau yn y dyfodol!'.

Peth arall, wrth gwrs, yw bod eich statws yn newid. Phoenodd hynny ddim un iot arna i, ond fe gyfaddefodd fy niweddar fam-yng-nghyfraith wrthyf ei bod hi'n gweld colli gallu brolio bod ei mab-yng-nghyfraith yn 'Bennaeth Uned Gyfieithu'r Swyddfa Gymreig'!

Tri phwt byr cyn cloi

Stori fach am beryglon cyfieithu dros y ffôn. Ffoniodd cwsmer fi a gofyn 'Can you check that a translation I've been given over the phone is correct?'. 'Of course,' meddwn i. 'What is it?' 'Cwsmeriaid dwyawr,' atebodd. 'It's to go on top of a public notice.' Dyna pryd y gwawriodd arnaf mai pennawd Saeneg yr arwydd oedd 'To our customers'!!

Teitl y llith yma yw 'O Siwt i Liwt'. Pam, yn enw rheswm, y byddwn ni'n sôn am liwt? Byddwn i wedi gallu deall 'telyn'!

A dyma fi, ar ôl traethu mor huawdl am weithio ar fy liwt fy hun, yn cael gair o gyngor gan fy nghyfrifydd. 'Gan fod y Canghellor wedi newid y rheolau,' meddai, 'dylet ti droi'n gwmni'.

A dyna wnes i!

Berwyn Prys Jones

Gosodiadau a barn yr awdur yn unig a geir yn yr hunangofiant hwn. Mae'r awdur yn cytuno mai ef, ac ef yn unig, fydd yn atebol i unrhyw unigolyn neu sefydliad y mae'r gosodiadau y mae wedi'u gwneud neu'r farn y mae wedi'i mynegi yn yr hunangofiant hwn yn peri tramgwydd iddo neu iddi.